Cofnodion Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 30 Mehefin 2018 yn Nhŷ Cwrdd Wrecsam

2018.21 Addoli agoriadol a chroeso

Yn ystod ein haddoli agoriadol, darllenwyd Cynghorion a Holiadau rhif 33 yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2018.22 Yn clercio heddiw

Mae Ros Morley yn gweithredu fel cyd-glerc heddiw.

2018. 23 Yn bresennol

Rydym yn croesawu 66 o Gyfeillion yma heddiw fel a gofnodwyd ar y rhestr bresenoldeb.

Y cynrychiolwyr o'r Cyfarfodydd Ardal yw:

Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru (CACC): Tom Brown

Cyfarfod Ardal Gogledd Cymru (CAGC): Julia Aspden

Cyfarfod Ardal Gororau'r De (CAGD): dim cynrychiolydd, ond mae Peter Hussey yn fodlon adrodd yn ôl

Cyfarfod Ardal De Cymru (CADC): Peter Davies

Ein henaduriaid heddiw yw: Julia Aspden a Tom Brown

Ein cyfieithydd heddiw yw: Steffan Wiliam

2018. 24 Calon a *The Friend:*

Bydd Denise Jones yn ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn i Calon, a bydd Martin Morley yn ysgrifennu ac yn arlunio i *The Friend*.

2018.25 Cofnodion i'w nodi ynglŷn â phenderfyniadau rhwng cyfarfodydd:

Anfonwyd enw ein Cyfaill Gethin Evans (CACC) ymlaen at y Pwyllgor Enwebiadau Canolog i'w ystyried fel ein cynrychiolydd ar QCCIR.

Mae CADC wedi ychwanegu enw Jane Harries at enw Janet Rees i fod yn gydlynwyr presenoldeb y Crynwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd ym mis Awst.

2018.26 Enwebiadau a phenodiadau:

a) Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n dwyn gerbron yr enwau canlynol: cyd-glercod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru:

Tricia Jones (CAGC) o 01.01.19 tan 31.12.21

Catherine James (CAGC) o 01.01.19 tan 31.12.19

Grŵp adnoddau: Rhian Parry (CAGC) yn syth tan 31.12.20

A'r enwebiadau hyn yn dderbyniol, fe'u penodwyd.

b) Enwebiadau a geisir:

Clerc cynorthwyol; yn syth a than 31.12.20

Un aelod i'r grŵp adnoddau: o 01.01.19 tan 31.12.21.

2018.27 Darlith Eisteddfod Genedlaethol 2018

Bydd Jane Harries yn darlithio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 'A Oes Heddwch?' ddydd Mercher 8 Awst am 4.30yp ym Mhabell y Cymdeithasau 2 yn Adeilad y Senedd. Mae'r rhestr ar gyfer gwirfoddolwyr ym mhabell Cytûn ar gael a gofynnir i Gyfeillion a all roi o'u hamser gysylltu â Janet Rees, Cwrdd Caerdydd.

2018.28 Sioe Frenhinol Cymru:

Mae Jeff Beatty yn trefnu cynrychiolaeth y Crynwyr ym mhabell Cytûn yn Sioe Frenhinol Cymru 23-26 Gorffennaf. Gofynnir i unrhyw un a all helpu gyda hyn gysylltu â Jeff ar jeff.beatty@smquakers.org.uk

2018.29 Gŵyl y Gelli 2018

Trefnwyd stondin gan Gyfarfod Blynyddol Prydain yng Ngŵyl y Gelli ac roedd aelodau o Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn gallu bod yno fel gwirfoddolwyr, gan helpu gyda'r agwedd ymestyn allan ar y gwaith. Roedd y stondin wedi'i threfnu'n dda iawn; bu'r ymestyn allan i ysgolion ac athrawon yn ogystal ag i'r cyhoedd yn werth chweil. Roedd yna fagiau rhodd gydag adnoddau Cymreig i oedolion ac roedd y bagiau rhodd i blant yn boblogaidd iawn.

2018.30 Cyfarfod Blynyddol Prydain: Datganiad Tablaidd

Mewn ymateb i'n cofnodion 2017.43 a 2018.09, roedd datganiad tablaidd Cyfarfod Blynyddol Prydain eleni'n cynnwys ffigurau ar wahân i Gymru gan gynnwys Croesoswallt, ond heb gynnwys y rheini sy'n byw yng Nghymru ond yn addoli dros y ffin. Diolchwn i'r Clerc Cofnodi am ei waith ar y mater hwn.

2018.31 Polisi'r Gymraeg: memorandwm dealltwriaeth

Yn dilyn cofnod Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 2018.08, mae'r clerc wedi gweithio ar bolisi'r Gymraeg gyda Rhian Parry (Grŵp Cynghori ar y Gymraeg) a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac mae wedi trafod y polisi gyda'r clerc cofnodi. Bydd gwaith ar y memorandwm dealltwriaeth llawn rhwng Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a Chyfarfod Blynyddol Prydain yn mynd rhagddo y mis nesaf a'i ddwyn yn ôl i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru mewn cyfarfod yn nes ymlaen.

2018.32 Ben Pink Dandelion: Cyflwr y Gymdeithas

Mae Ben wedi rhoi i ni drosolwg o'r ymchwil gymdeithasegol ddiweddaf i Grynwriaeth yma ym Mhrydain a beth dylem ei ddysgu o hyn. Mae natur credu'n newid yn y gymdeithas fodern ac mewn grwpiau crefyddol, gan gynnwys Crynwriaeth Prydain. Rydym wedi clywed dadansoddiad manwl o sut rydym wedi newid dros y tri degawd diwethaf a sut rydym o hyd yn cael ein dal at ein gilydd fel Cymdeithas Grefyddol. Mae Ben wedi'n gwneud yn fwy ymwybodol o'n hamrywiaeth ddiwinyddol, ond hefyd o sut yn y bôn rydym yn dal gafael ar ymdeimlad â dichonolrwydd diamod (*absolute perhapsness*). Ceiswyr ydyn ni a ddelir gan ein ffordd o addoli ac o ymagor i'r ysbrydol a'n dealltwriaeth o sut rydym yn dwyn hyn i'n bywydau pob dydd. Rydym wedi'n hysgogi i'r eithaf gan sgwrs Ben.

2108.33 Grŵp Ffocws a Chyfarfod yr Ymddiriedolwyr: Cyfeiriad a llywodraethu Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn y dyfodol

Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr a'r Grŵp Ffocws â'r clerc i drafod cyfeiriad y Cyfarfod yn y dyfodol yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd yn ein cyfarfod ym mis Hydref 2017. (Cofnodion Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 2017.45 a 2018.10) Penderfynwyd cael sgwrs gyda Chyfeillion a Mynychwyr unigol, gan ddefnyddio SurveyMonkey a holiadur papur. Rydym wedi cytuno ar y llythyr a chwestiynau drafft i'w hanfon yn ddwyieithog i bob Cwrdd Lleol. Atodir y rhain i'r cofnodion hyn.
Gobeithiwn y bydd cynifer o Gyfeillion a chyrddau'n ymateb ag sy'n bosibl.

2018.34 Gwaith yng Nghymru: 'Yn Ceisio Peidio â Chrynu – Cyffesion Caplan Carchar'

Daeth Ruth Moore Williams â'i thelyn gyda hi ac rydyn ni wedi dwlu ar gael cerddoriaeth i ddechrau a gorffen ei sgwrs. Mae wedi dweud wrthym am ei siwrnai fel Crynwraig a'r alwad gynyddol a deimlai i fod yn gaplan carchar. Wrth ddechrau ar ei gwaith yn y carchar, roedd hi'n poeni am y cyfrifoldeb i gynrychioli Crynwriaeth yno. Mae'r carchar yn tocio adenydd rhyddid. Mae graddfa problemau iechyd meddwl yn y carchar yn sylweddol ac nid yw strwythurau'r carchar yn helpu yn hyn o beth. Mae hi'n teimlo ei bod yn bwysig iawn i'r Crynwyr barhau i ymwneud â'r system garchardai. Rydym yn ddiolchgar am, ac yn cael ein hysbrydoli gan, y gwaith y mae hi a Chrynwyr eraill sy'n gwirfoddoli yn ei wneud i liniaru'r annynoldeb sy'n rhan anochel o unrhyw system garchardai. Rydym yn atodi pedwar *haiku* a gyfansoddwyd gan rai o'r dynion yn sgil y gwaith a wnaed gan un o'r gwirfoddolwyr yno. Rydym yn eu cefnogi i gyd yn y gwaith.

2018.35 Archifau

Mae ein harchifydd, Alan Clark, wedi gofyn i ni gytuno i adneuo dogfennau o 1992 tan 2010 yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'n awgrymu at ei gilydd y dylai fod mynediad agored i'r dogfennau hyn (mae'r rhan fwyaf eisoes yn agored i'r cyhoedd), ond pan fydd unrhyw amheuaeth am ddoethineb mynediad agored ar gyfer dogfen benodol neu grŵp o ddogfennau, dylai'r archifydd, mewn ymgynghoriad â'r clercod, roi gwaharddiad ar y rhain am nifer priodol o flynyddoedd. Dylai ceisiadau i Lyfrgell Genedlaethol Cymru am fynediad i'r deunyddiau sydd wedi'u hadneuo fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth yr Archifydd. Rydym yn cytuno â'r awgrymiadau hyn.

2018.36 Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r Gyllideb

Mae'r ymddiriedolwyr wedi paratoi'r adroddiad a chyfrifon blynyddol sydd ar gael yma heddiw. Mae Martin Hughes, ein trysorydd, wedi paratoi'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ac rydym yn ei derbyn.

2018.37 Adroddiadau:

Mae'r adroddiad gan Gyngor Cynrychioladol Quaker Life wedi bod ar gael drwy e-bost ac mewn print yma heddiw. Rydym yn diolch i Angela Ormrod am ei gwaith.

Cytûn: cynhaliwyd cyfarfod Cytûn yr wythnos yma a bu ein Cyfaill Gethin Evans, ein cynrychiolydd newydd, yn ei fynychu gyda Deborah Rowlands, sydd bellach wedi cwblhau chwe blynedd o wasanaeth ar y bwrdd. Diolchwn iddi am hynny.

2018.38: Grŵp Chwilio dros y Pwyllgor Enwebiadau

Penodir Frances Voelcker a Ros Morley fel grŵp chwilio i gael hyd i enw ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau i'r cyfnod 01.01.19 – 31.12.21.

Llofnodwyd
Catherine James
Clerc ar yr adeg hon

Ros Morley
Cyd-glerc ar yr adeg hon.